

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

- Cyfarfod:** Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
- Dyddiad:** Dydd Mercher 25^{ain} o Ionawr 2023
- Amser:** 10.00 y.b.
- Man Cyfarfod:** Y Llyfrgell, Plas Tan y Bwlch,
Maentwrog a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser
cychwyn dynodedig***

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

*Councillor: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes
June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts,
John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

Members appointed by Conwy County Borough Council

Councillor: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Members appointed by The Welsh Government

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle,
Mr. Tim Jones, Ms. Naomi Luhde – Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau'r Cadeirydd.
2. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.
3. **Cofnodion** **3 - 6**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 07 Rhagfyr 2022 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth.
4. **Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir** **7 - 24**
Cyflwyno adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir am y ceisiadau a ddaeth i law. (Copïau yma)
5. **Adroddiadau Diweddarau** **25 - 52**
Cyflwyno adroddiadau diweddarau, er gwybodaeth. (Copïau yma)
6. **Penderfyniadau a Ddirprwywyd** **53 - 64**
Cyflwyno rhestr o geisiadau sydd wedi cael eu penderfynu yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd, er gwybodaeth. (Copi yma)
7. **Penderfyniad Apél** **65 - 72**
Cyflwyno adroddiad llafar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir ar benderfyniad yr Arolygydd i wrthod apêliadau (a) NP5/50/153B Newidiadau i ardal patio blaen gan gynnwys gosod drysau dyblyg, ac adeiladu balconiau newydd a gosod drysau deublyg ar y lloriau 1af ac 2il ar y drychiad blaen, The Exchange, 4 Terrace Road, Aberdyfi, Apêl gan Mr Thomas Lee yn erbyn penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wrthod y cais, (b) NP5/61/335D Newid defnydd y bwyty (A3) ar y lloriau daear ac is-ddaear yn dŷ (C3) ynghyd a newidiadau allanol i'r ffenestri a chodi balcony yn y cefn ar y llawr daear, Caffi Weary Walkers, Stryd Fawr, Harlech. Apêl gan Mr Sylvester yn erbyn penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wrthod y cais.
(Amgaeir copi o benderfyniadau yr Arolygydd – Copïau yma)

**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 7 RHAGFYR 2022**

Y Cyngorydd Elwyn Edwards (Gwynedd) (Cadeirydd)

PRESENNOL:

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cynghorwyr Annwen Hughes, June Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorwyr Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Mr. Brian Angell, Ms. Sarah Hattle, Ms. Naomi Luhde-Thompson.

Swyddogion

Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Ms Jane Jones, Mr. Dafydd Thomas, Mr. Richard Thomas, Mrs. Anwen Gaffey.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad hefyd yn cael ei roi ar-lein.

- 1. Ymddiheuriadau**
Cyngorydd Louise Hughes, Kim Jones, Ifor Glyn Lloyd, Meryl Roberts ; Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Ms. Delyth Lloyd.
- 2. Datgan Budd**
Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.
- 3. Cofnodion**
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.
- 4. Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir**
Cyflwynwyd – Adroddiadau gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.
- 5. Adroddiadau Diweddar**
Cyflwynwyd – Adroddiadau diweddar gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar geisiadau cynllunio a materion cydymffurfio.

Gweler yr Atodlen o Benderfyniadau Cynllunio sydd ynghlwm.
- 6. Penderfyniadau Dirprwyedig**
Cyflwynwyd a Chafwyd – Rhestr o geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag awdurdod a ddirprwywyd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

7. **Adroddiad ar Ddatblygiad Hillside, Aberdyfi**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir ar benderfyniad diweddar y Goruchaf Lys. Achubodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol am eu gwaith.

Adroddwyd - Diolchodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir i'r staff unigol a fu'n gysylltiedig â'r achos. Diolchodd i Iwan Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Jane Jones, Rheolwr Cynllunio Dros Dro, Siwan Lyall, Cyfreithiwr yr Awdurdod, Liz Jenkins, Cydlynnydd GIS a Rebecca Jones, cyn Bennaeth Polisi'r Awdurdod. Mynegodd werthfawrogiad yr Awdurdod i Geldards Solicitors, Caerdydd, a'r Bargyfreithiwr, Gwion Lewis.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr adroddiad a rhoddodd gefndir manwl er budd yr Aelodau a benodwyd ar yr Awdurdod yn ddiweddar. Dywedodd nad oedd unrhyw ganiatâd dilys ar ôl ar y safle a chadarnhaodd fod ffin datblygu Aberdyfi yn dod i fyny at y tai a ddatblygwyd eisoes ar y safle. Bydd y penderfyniad hwn yn effeithio ar ystyriaethau cynllunio yn y dyfodol a chafodd ei grybwyll mewn llawer o'r cylchgronau cynllunio cenedlaethol.

Yn codi wedi hynny, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod yr hawlydd wedi gwneud cynnig rhesymol ar gyfer costau Goruchaf Lys yr Awdurdod a bod hynny wedi'i dderbyn. Bydd hawliadau pellach am gostau ar gyfer yr Uchel Lys a'r Llys Apêl yn dilyn.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir y gallai ddarparu gwybodaeth am geisiadau byw eraill, pe bai angen.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55

ATODLEN O BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO – 7 Rhagfyr 2022

Rhif yr Eitem.

4. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir

- (1) NP 5/73/LBAD425C – Caniatâd Hysbyseb i arddangos panel dehongli ym maes parcio, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog. LL41 3YU

Adroddwyd – Cyflwynodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yr adroddiad a'r ystyriaethau cynllunio. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro mai pren fyddai deunydd y ffrâm.

PENDERFYNWYD rhoi **caniatâd** yn unol â'r argymhelliad.

5. Adroddiadau Diweddarau

- (1) Hysbysiadau Gorfodi, Hysbysiadau Gorfodi Adeilad Rhestredig a gyflwynwyd o dan bwerau dirprwyedig a Rhestr o Achosion Cydymffurfiaeth – **Er Gwybodaeth**

Mewn ymateb i bryder cyffredinol a godwyd gan Aelod a chais i swyddogion fod yn fwy penodol a chynnwys amserlenni yn y golofn 'sylwadau' fel bod Aelodau'n gwybod eu bod yn symud ymlaen, dywedodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro ei bod yn anodd darparu manylion manwl gywir o ran amserlenni gan fod natur y broses gydymffurfio yn gymhleth a'r gostyngiad yn y lefelau staffio yn yr adran gydymffurfio hefyd yn ffactor.

NP5/77/ENFLB60H – Gwesty Maes y Neuadd, Talsarnau

Bydd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorydd Annwen Hughes a manylion y defnydd arfaethedig yn y dyfodol.

NP2/16/ENF448 - Chwarel Hendre Ddu, Cwm Pennant

Bydd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn ceisio cadarnhad gan y Swyddog Achos fod y gwaith ar y safle bellach wedi dod i ben ac y bydd Hysbysiad Atal yn cael ei gyflwyno os bydd unrhyw waith yn aildechrau ar y safle.

NP5/55/ENFL142A - 3 Glandŵr, Bryncrug

Nododd yr aelodau fod y Rheolwr Cynllunio Dros Dro yn dal i geisio dod o hyd i'r perchennog i symud y mater hwn ymhellach. Cynigiodd Aelod roi rhagor o fanylion i'r swyddog achos.

Yn codi wedi hynny, awgrymodd Aelod y dylid sefydlu bwrdd prosiect i gynorthwyo staff gyda hen achosion gorfodi. Mynegodd yr Aelod bryderon hefyd y gallai staff yn y Gwasanaeth Cynllunio fod dan lawer o straen oherwydd lefelau staffio is. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir nad oedd yr Awdurdod yn wahanol i Awdurdodau Cynllunio eraill a bod y broses orfodi ei hun yn gymhleth. Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr Aelodau unwaith y byddai'r rhewi recriwtio wedi dod i ben, y gobaith oedd y byddai'r Awdurdod yn gallu penodi, er bod yna broblemau recriwtio staff cydymffurfio ledled Cymru.

Mewn ymateb i bryder bod staff yn gorfod ymdrin gydag ymgeiswyr anfodlon, sicrhaodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir yr aelodau nad oedd hyn yn bryder sylweddol ar hyn o bryd.

NP5/54/ENFLB33M – Neuadd Nannau, Llanfachreth

Ymddiheurodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro i'r Aelodau nad oedd yr adroddiad yn cynnwys y diweddariad fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd cyfarfod gyda'r arbenigwyr toi, a gynhaliwyd yr wythnos hon, wedi darparu gwahanol opsiynau ar gyfer amddiffyn y to. Roedd swyddogion yn awr yn edrych ar opsiynau ariannu amrywiol ac yn ystyried cofrestru datganiad o ddiddordeb ar gyfer grant newydd a ariennir gan Cadw a allai fod ar gael.

Mewn ymateb i gwestiwn, cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir bod adeiladau eraill "mewn perygl" yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd lle gallai'r awdurdod gamu i mewn a bydd y Swyddog Amgylchedd Hanesyddol sydd newydd ei benodi yn cyflwyno adroddiad i Aelodau flaenoriaethu opsiynau yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

- (2) Cytundebau Adran 106 – **Er Gwybodaeth**
PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

- (3) Ceisiadau heb eu penderfynu lle mae mwy na 13 wythnos wedi mynd heibio –
Er Gwybodaeth

NP5/75/73D – Ynys, Cwrt, Pennal

Darparodd y Swyddog Achos adroddiad diweddar a chadarnhaodd na fyddai'r cais ar y rhestr erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ym mis Ionawr 2023.

NP3/12/12G – Plas-y-Nant, Betws Garmon

Cytunodd y Rheolwr Cynllunio Dros Dro i roi diweddariad manwl i'r Cynghorydd Edgar Owen.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

<u>Rhif Eitem / Item No.</u>	<u>Cyfeirnod / Reference No.</u>	<u>Disgrifiad / Description.</u>	<u>Swyddog Achos / Case Officer</u>
NP5/62/63J		Cais amlinellol i ddymchwel dau adeilad allanol a gosod 10 pod glampio ynghyd a chreu llecynnau caled i'w ddefnyddio fel llefydd parcio a defnyddio'r adeilad sydd ar ôl fel bloc gwasanaethu (Ail-gyflwyniad), Cymru Lan, Nantcol Kennels, Pentre Gwynfryn, Llanbedr / Outline application for the demolition of two outbuildings and the siting of 10 glamping pods and associated hard standing parking together with the redevelopment of the remaining building as a service block (Re-submission), Cymru Lan, Nantcol Kennels, Pentre Gwynfryn, Llanbedr	Aled Lloyd

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
– Pwyllgor Cynllunio a Mynediad.**

Dyddiad: 25-Ion-2023

Cais Rhif: NP5/62/63J

Dyddiad Cofrestru: 08/11/22

Cymuned: Llanbedr

Cyfeirnod Grid: 260380 327388

Swyddog Achos: Mr Aled Lloyd

Lleoliad:

Cymru Lan, Nantcol Kennels, Pentre Gwynfryn, Llanbedr, LL45 2PB

Ymgeisydd:

Chris Bennett,
Cymru Lan Cyf.
Cymru Lan
Nantcol Kennels
Pentre Gwynfryn
Llanbedr
LL45 2PB

Disgrifiad:

Cais amlinellol i ddymchwel dau adeilad allanol a gosod 10 pod glampio ynghyd a chreu llecynnau caled i'w ddefnyddio fel llefydd parcio a defnyddio'r adeilad sydd ar ôl fel bloc gwasanaethu (Ail-gyflwyniad)

Crynodeb o'r Argymhelliad:

GWRTHOD am y rhesymau canlynol:

- Mae'r cais yn cynnig unedau llety newydd yng nghefn gwlad agored sy'n methu â bodloni gofyniad Polisi Datblygu 22.
- Nid yw'r cynnig yn rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol nac yn atodol i atyniad twristiaeth newydd neu bresennol ac o'r herwydd mae'n groes i Bolisi Datblygu 29 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) a Chanllawiau Cynllunio Atodol 8 – Llety Ymwelwyr.
- Mae'r cynnig yn cyflwyno datblygiad newydd ar raddfa fawr o fewn cefn gwlad agored, yn cael ei ystyried yn fath amhriodol o ddatblygiad sy'n methu â gwella na gwarchod 'Nodweddion Arbennig' y Parc Cenedlaethol a bydd yn cael effaith andwyol ar gymeriad y Parc Cenedlaethol a'r dirwedd ehangach.
- Dim digon o fanylion i asesu goblygiadau ecoleg.
- Dim gwybodaeth wedi ei gyflwyno ynglŷn â lleoliad y tanc septig a'r cae draenio arfaethedig.
- Ni chyflwynwyd Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol.

Rheswm/Rhesymau yr Adroddwyd am y Cais i'r Pwyllgor: Cynllun Dirprwyo

Cefnogaeth Cyngor Cymuned, argymhelliad y swyddog i Wrthod

Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA):

Mae'r datblygiad wedi bod yn destun barn sgrinio, a ddaeth i'r casgliad nad yw'r datblygiad yn ddatblygiad AEA.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC):

Fel yr 'Awdurdod Cymwys' at ddibenion Gwarchod Cynefinoedd a Rheoliadau Rhywogaethau 2017 mae'n ofynnol i'r Awdurdod hwn gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar gyfer y cais cynllunio hwn oherwydd presenoldeb clwyd(oedd) nos ar gyfer ystlumod pedol lleiaf yn yr adeilad(au) presennol ar y safle sydd i'w ddymchwel er mwyn hwyluso'r gwaith adeiladu'r datblygiad newydd arfaethedig. Mae ystlumod pedol lleiaf yn rhywogaethau Annex II sy'n brif reswm dros ddethol ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd, y mae'r 2 gydran agosaf (hy SoDdGA Coed Aber Artro a SoDdGA Coed Lletywalter) ohonynt tua 160m a c. 270m yn y drefn honno o safle'r datblygiad arfaethedig.

Tra bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno adroddiad ecolegol yn nodi presenoldeb ystlumod ar y safle, mae CNC wedi nodi yn eu hymateb bod angen gwybodaeth bellach i asesu maint yr effeithiau andwyol ar ystlumod a dyfrgwn ac unrhyw fesurau osgoi neu liniaru sydd eu hangen. Rhaid i hyn ddangos na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o fod yn niweidiol i gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn eu cynefin.

Dynodiadau / Cyfyngiadau Tir:

Cefn Gwlad Agored

ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd

ACA Pen Llyn a'r Sarnau

Agosrwydd c160m SoDdGA Coed Artro

Agosrwydd c270m i SoDdGA Coed Lletywalter

Coetir Hynafol gerllaw'r safle

Mae Llwybr Cyhoeddus yn rhedeg trwy'r safle (Hawl Tramwy Cyhoeddus Llanbedr Rhif 23)

Agosrwydd at Adeilad Rhestredig (Capel Salem)

Disgrifiad o'r Safle:

Mae'r safle wedi ei lleoli o fewn cefn gwlad agored ar ardal wastad o dir amaethyddol. Fe'i lleolir ar ymyl dwyreiniol dau floc cyfagos o goetir, tua 700m i'r gogledd-ddwyrain o bentref bychan Pentre Gwynfryn a bron i 1.2 milltir o bentref Llanbedr. Mae'r safle yn rhannol weladwy o'r ffordd sy'n arwain o bentref Llanbedr i Gwm Nantcol. Mae Capel Salem a Thŷ Capel (Adeilad Rhestredig Gradd II) o fewn 60 metr i'r safle.

Ar hyn o bryd mae'r safle'n cynnwys adeiladau cenel / cytiau cwn ac adeilad llosgydd bach sy'n cynnwys adeiladau concrit isel a thun rhychiog ac ardal llawr caled.

Nid yw'r safle wedi gweithredu ar gyfer gwaredu cyrff marw anifeiliaid ers peth amser.

Tua'r dwyrain mae pwll bychan ac mae ffens weiren rwyll yn ffinio â'r safle ar bob ochr. Mae'r adeiladau presennol wedi'u lleoli o fewn ardal sydd wedi'i chlirio ymhlith y coetir, gyda choed yn ffurfio'r ffiniau union i'r gogledd a'r gorllewin. Mae Afon Artro yn llifo gyferbyn â ffin orllewinol y safle, a'i phwynt agosaf yw tua 25 m o gornel fwyaf gogledd-orllewinol y safle. Mae'r afon ar waelod dyffryn o'r safle, gyda gostyngiad serth yn y tir rhwng y safle a'r afon.

Mae safle gwersylla Rhaeadrau Nantcol a Rhaeadr Nantcol yn agos iawn. Ceir mynediad i safle'r cais oddi ar y ffordd sirol trwy drac sengl oddeutu 40 metr o hyd. Mae llwybr cyhoeddus yn rhedeg ar hyd y trac a thrwy'r safle. O'r ffordd sirol mae'r safle wedi ei sgrinio'n weddol gan goed brodorol.

Datblygiad Arfaethedig:

Mae'r datblygiad arfaethedig ar gyfer caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer -

- dymchwel dau adeilad allanol
- lleoli 10 pod glampio
- parcio llawr caled
- ailddatblygu gweddill yr adeilad fel bloc gwasanaethau.

Cyflwynwyd cais cynllunio ym mis Medi 2020 ar gyfer parhau â'r defnydd sefydledig o'r safle fel storfa stoc trig trwy ddymchwel adeiladau allanol presennol a chodi adeilad newydd yn mesur 13.5 x 9 metr (Cais wedi'i Ailadrodd). Gwrthodwyd y cais yn dilyn ystyriaeth gan Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ar 2 Rhagfyr 2020.

Cyflwynwyd apêl i'r Arolygiaeth Gynllunio ar y pryd a oedd bellach yn cael ei galw'n Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn dilyn y gwrthodiad. Caniatwyd yr apêl gydag amodau erbyn penderfyniad dyddiedig 28 Mehefin 2021

Ym mis Ebrill 2022 cyflwynwyd cais dan gyfeirnod NP5/62/63H am ganiatâd cynllunio amlinellol i ddymchwel dau adeilad allanol ac adeiladu 10 pod glampio, lle parcio caled gerllaw ac i ailddatblygu gweddill yr adeilad fel bloc gwasanaethau. . Yn dilyn hynny, gwrthodwyd hyn dan bwerau dirprwyedig ar 29 Mehefin 2022. Mae'r cais diweddaraf hwn ar gyfer yr un datblygiad.

Polisiau Cynllunio Perthnasol:

Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

- SP A: Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a datblygu cynaliadwy
- SP Ff: Amgylchedd Hanesyddol
- SP I: Twristiaeth
- DP 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol
- DP 2: Datblygu a'r Dirwedd
- SP D: Yr Amgylchedd Naturiol
- SP L: Hygyrchedd a Chludiant
- DP 6: Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy
- DP 18: Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau
- DP22: Safleoedd Chalets a Charafannau Sefydlog
- DP 29: Llety Gwyliau Amgen

Arweiniad Cynllunio Atodol

- CCA 2: Ystyriaethau Datblygu Cyffredinol
- CCA 6: Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth
- CCA 7: Tirweddau a Morluniau Eryri
- CCA 8: Llety Ymwelwyr

Polisi Cenedlaethol

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11) 2021

Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy.

Nodyn Cyngor Technegol 13: Twristiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

Ymgynghoriadau :

Cyngor Cymuned Llanbedr	<p>Cefnogi - Mae'r Cyngor Cymuned yn gefnogol iawn i'r prosiect glampio yma yng Nghwm Nantcol.</p> <p>Mae yna 2 safle eisoes, heb unrhyw broblemau. Rydym yn hyderus iawn y bydd y cais hwn yn cael ei ganiatáu. Bydd hwn yn atyniad gwerth chweil.</p> <p>Llawer gwell na'r cynllun blaenorol, sydd eisoes wedi'i gymeradwyo drwy apêl. Y dewis yw podiau neu le anifeiliaid marw. Mae'r dewis yn hawdd.</p> <p>Un mater os caniateir y podiau yna bydd angen sicrhau nad oes sŵn o'r safle - amharu ar drigolion lleol.</p> <p>Mae'r Capel ar gau ar gyfer gwasanaethau ar y Sul ac yn y broses o gael ei gyflwyno i Gapeli Cymru.</p> <p>Gyda'r sylwadau hyn bydd y cais cynllunio o fudd i'r ardal yn weledol ac yn economaidd. (Creu Swyddi yn yr ardal)</p>
Cyfoeth Naturiol Cymru	<p>Pryderon – gwybodaeth annigonol yn yr Arolwg Ystlumod, goleuo, problemau gyda draeniad budr. Goblygiadau ARhC.</p> <p>Argymell lleihau nifer y podiau i osgoi gorddatblygu ac erydu llonyddwch gwledig y safle.</p> <p>Mae'r asiant wedi ymateb i'r pryderon a godwyd ac mae ymateb pellach bellach wedi dod i law</p> <p>Yn eu hymateb diweddaraf mae CNC yn dal i ddatgan eu pryderon nad oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno i asesu'r goblygiadau ecolegol</p>
Priffyrdd Gwynedd	Dim ymateb
Gwynedd – Mynediad	Mae llwybr cyhoeddus 23 yn croesi'r safle
Iechyd yr Amgylchedd	Dim gwrthwynebiad – Sylwadau wedi eu gwneud
Dŵr Cymru	Dim gwrthwynebiad gan fod tanc septig i'w ddefnyddio.
GAPS	Dim gwrthwynebiad
Ecoleg	<p>Pryderon - Ymddengys bod rhywfaint o amwysedd ynghylch a yw Adeilad 1 yn cael ei ddefnyddio fel clwydfan nos neu fel clwyd bwydo, bydd angen egluro hyn.</p> <p>Dim ond dan drwydded y gellir dinistrio'r Glwydfan Nos.</p>

Ymateb i Gyhoeddusrwydd:

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais ar ffurf hysbysiad safle a llythyrau hysbysu.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 1 llythyr o wrthwynebiad ac 1 llythyr o gefnogaeth wedi'u derbyn a cheir crynodeb o'r pryderon a godwyd fel a ganlyn:

Gwrthwynebiad

- Tagfeydd traffig
- Ddim yn safle priodol
- Safleoedd Gwersylla Presennol yn yr ardal

Cefnogaeth

- Gwell defnydd o'r safle yn hytrach na storio anifeiliaid marw

2.0 Egwyddor Datblygu

2.1 Mae'n briodol ystyried y cynnig yn erbyn Polisi Strategol A a Pholisïau Datblygu 1, 2, 22 a 29.

2.2 Polisi 22 y CDLI 'Safleoedd Cabanau Gwyliau a Charafannau Sefydlog' a Pholisi 29 'Llety Gwyliau Amgen' yw'r rhai mwyaf perthnasol i'w defnyddio wrth benderfynu ar egwyddor y datblygiad hwn.

- Nid yw Polisi 22 yn caniatáu safleoedd sefydlog neu gabanau gwyliau newydd o fewn y Parc Cenedlaethol.
- Nid yw Polisi 29 ond yn caniatáu datblygiad ar raddfa fach ar gyfer llety gwyliau amgen pan fo'r rhain yn rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol neu'n atodol i atyniad twristiaid. Ni ystyrir ei fod yn cwrdd â'r maen prawf hwn, ac mae'r cynnig yn disgyn yn fyr o ran meini prawf pwysig eraill y polisi hwn.

Felly, nid oes polisi CDLI sy'n cefnogi egwyddor y datblygiad arfaethedig.

2.3 Bydd asesiad llawn o'r polisïau hyn yn cael ei ddangos yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

3.0 Asesiad Cynllunio

3.1 Mae Polisi Datblygu 22 yn datgan

O fewn y Parc Cenedlaethol ni chaniateir safleoedd carafanau sefydlog neu siales newydd, nac estyniadau i safleoedd presennol sy'n golygu cynnydd yn nifer yr unedau sefydlog.

Cefnogir ailddatblygu safleoedd a all gynnwys gwella neu ymestyn cyfleusterau o fewn ffiniau safleoedd presennol, lleihau dwyseddu neu welliannau amgylcheddol buddiol eraill, os oes gwelliant cyffredinol i'r safle a'i osodiad yn y dirwedd.

Fel eithriad, gellir ehangu ardaloedd safleoedd statig a chabanau gwyliau, ond heb gynyddu lleiniau, lle byddai hyn yn cyflawni gwelliant amgylcheddol cyffredinol clir, i'r safle a'i leoliad yn y dirwedd o amgylch.

Caniateir cyfnewid unedau sefydlog gyda chalets neu unedau llety amgen lle mae gwelliant cyffredinol i'r safle ac nad oes unrhyw effaith amgylcheddol neu dirwedd annerbyniol.

Ni chaniateir cynigion i newid defnydd carafán sefydlog neu siales o ddefnydd twristiaid i ddefnydd preswyl.

- 3.2 Fel y nodir yn y polisi **ni chaniateir** sefydlu safleoedd carafanau sefydlog neu siales newydd, nac estyniadau i safleoedd presennol sy'n golygu cynnydd yn nifer yr unedau sefydlog . Felly mae'r cynnig yn amlwg yn methu â bodloni gofynion Polisi Datblygu 22.
- 3.3 Mae'r sylwebaeth polisi ym mharagraff 6.39 o'r CDLIE yn datgan:
Cydnabyddir bod safleoedd carafanau a chabanau gwyliau yn ychwanegiad pwysig i'r ystod o letyau sydd ar gael i gwrdd ag anghenion amrywiol ymwelwyr â'r Parc. Mae nifer uchel o safleoedd carafanau sefydlog mawr wedi'u lleoli o fewn y Parc Cenedlaethol, gyda'r rhan fwyaf ohonynt ar hyd y gwastadedd arfordirol gorllewinol. Byddai llawer o'r safleoedd hyn yn cael eu hystyried yn anaddas heddiw oherwydd eu maint, eu natur agored a diffyg sgrinio. O ystyried y niferoedd presennol o garafannau sefydlog a chalets yn y Parc Cenedlaethol, nid yw'r Awdurdod yn ystyried bod cyfiawnhad digonol dros unrhyw safleoedd carafanau sefydlog a chabanau gwyliau pellach oherwydd eu heffaith ar y dirwedd ac ar 'Nodweddion Arbennig' y Parc Cenedlaethol. . Felly ni fydd cynigion o'r fath yn cael eu caniatáu.
- 3.4 Mae'r cyd-destun polisi yn glir yn yr **ystyr na ddylid caniatáu unrhyw safleoedd newydd** a byddai caniatáu'r math hwn o ddatblygiad yn cael effaith andwyol ar 'Nodweddion Arbennig' y Parc Cenedlaethol.

Polisi Datblygu 29

Mae Polisi Datblygu 29 yn datgan

Caniateir datblygiadau ar raddfa fach ar gyfer llety amgen cyn belled â bod yr holl feini prawf canlynol yn cael eu bodloni

i. Mae'r safle yn rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol neu'n atodol i atyniad twristiaeth newydd neu bresennol ac nid yw'n dod yn brif atyniad.

ii. Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad y dirwedd, mae'n ffitio'n anymwthiol i'r dirwedd ac mae wedi'i sgrinio'n dda gan nodweddion tirwedd presennol.

iii. Nid yw'r cynnig yn arwain at greu mynedfa gerbydol newydd na mannau parcio a fyddai'n amharu'n andwyol ar gymeriad y dirwedd.

iv. Dylid lleoli unrhyw gyfleusterau atodol o fewn adeilad presennol neu fel estyniad i gyfleusterau presennol.

v. Mae'r safle ar gyfer llety gwyliau tymor byr yn unig

Ni chaniateir safleoedd newydd nad ydynt yn gysylltiedig â chynllun arallgyfeirio amaethyddol, neu atyniad ymwelwyr presennol.

DP 29, maen prawf (i):

"Mae'r safle'n rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol neu'n atodol i atyniad twristiaeth newydd neu bresennol ac nid yw'n dod yn brif atyniad."

3.5 Mae'r tir sy'n destun y cais cynllunio hwn o fewn cefn gwlad agored ac nid yw'n ffurfio rhan o ddaliad amaethyddol ac felly ni ellir ei ystyried yn gynllun arallgyfeirio fel sy'n ofynnol gan Bolisi Datblygu 29.

3.6 Nid yw'r cynnig yn bodloni gofyniad Maen Prawf (i) PD 29

3.7 DP 29, maen prawf (ii):

"Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn achosi niwed sylweddol gymeriad y dirwedd, mae'n gweddu yn anymwthiol o fewn y dirwedd ac yn cael ei sgrinio'n dda gan nodweddion tirwedd presennol."

3.8 Gan gyfeirio at yr effaith ar y dirwedd ehangach, mae Polisi Datblygu 2 Datblygu a'r Dirwedd yn datgan y dylai graddfa datblygiadau newydd, gan gynnwys ei osodiad a'i dirlunio barchu a gwarchod cymeriad y dirwedd. Yn benodol, mae'r polisi yn anelu at warchod ardaloedd cymeriad tirwedd yn seiliedig ar LANDMAP. Mae LANDMAP yn system wybodaeth ddaearyddol Cymru gyfan sy'n seiliedig ar adnoddau tirwedd. Mae'n cynnwys pum 'Agwedd a Werthuswyd' sef Tirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd Tirwedd, Gweledol a Synhwyrdd, Tirwedd Hanesyddol a'r Dirwedd Ddiwylliannol.

- 3.9 Mae'r cynnig hwn wedi'i ymgorffori o fewn ardal ddiffiniedig fwy ar gyfer gofynion asesiad LANDMAP. Mae'r ardal hon yn ymgorffori Afon Cwmnantcol ac ardaloedd ucheldirol y Rhinogau. O ran yr agweddau gwledol a synhwyrdd a'r dirwedd ddaearegol, mae'r ardal gyfan yn cael ei dosbarthu fel un o werth uchel a rhagorol. Yr argymhelliad ar gyfer yr ardal hon yw y dylid ei chadw yn ei chyflwr bresennol.
- 3.10 Gan fod Cwm Nantcol yn dirwedd sensitif o ansawdd uchel iawn, mae sylw ac ystyriaeth arbennig wedi ei roi i'r cynnig hwn. Mae'n amheus a ellir integreiddio elfennau o'r cynnig o fewn y tiffurf presennol ac o fewn coed presennol. Er na fydd y cynnig yn weledol amlwg ar dir uwch pell, bydd yn weladwy iawn i olygfeydd ehangach y cyhoedd o'r llwybr troed sy'n rhedeg yn uniongyrchol drwy'r safle. Oherwydd natur a dyluniad y datblygiad arfaethedig, bydd yn methu ag integreiddio a gwarchod rhinweddau unigryw'r ardal ehangach hon ac yn y pen draw yn cael effaith annerbyniol ar y dirwedd.
- 3.11 Nid yw'r cynnig yn bodloni gofyniad Maen Prawf (ii) PD 29.

DP 29, maen prawf (iii)

Nid yw'r cynnig yn arwain at greu mynedfa newydd na manau parcio a fyddai'n amharu ar gymeriad y dirwedd.

- 3.12 Er na chynigir mynediad newydd, ychydig iawn o waith sydd ei angen i ddarparu manau parcio ar gyfer y datblygiad arfaethedig hwn.

DP 29, maen prawf (iv)

Dylid lleoli unrhyw gyfleusterau atodol o fewn adeilad presennol neu fel estyniad i gyfleusterau presennol.

- 3.13 Mae'r cais yn nodi y bydd bloc gwasanaeth yn cael ei ddarparu o fewn adeilad presennol Mae CCA 8: Llety Ymwelwyr yn nodi ym mharagraff 17.3:

Mae'r mathau o lety a fyddai'n cael eu hystyried dan y polisi hwn yn rhai effaith isel ac ar raddfa fach eu natur. Yn gyffredinol maent yn llai ymwithiol na'r carafanau sefydlog a theithiol mwy traddodiadol gan mai eu pwrpas yw sicrhau mwynhad tawel ymwelwyr o'r ardal, a darparu rhyw fath o 'brofiad yn ôl i natur'. O ganlyniad, gellir eu hystyried fel Llety Gwyliau Cynaliadwy Effaith Isel Amgen.

- 3.14 Mae'r cynnig fel y'i cyflwynwyd ar gyfer sefydlu safle newydd ar gyfer 10 pod. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn effaith isel nac ar raddfa fach ei natur. Mae'r cynnig felly yn groes i'r cyngor yn y Polisi a'r CCA.

DP 1 – Egwyddorion Datblygu Cyffredinol a DP 2 – Datblygu a'r Dirwedd

- 3.15 Nid yw'r cais yn cydymffurfio â meini prawf (i) a (ix) Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol gan na fyddai'r cynnig yn cadw ac yn gwella "Rhinweddau Arbennig" a phwrpasau'r rhan hon o'r Parc Cenedlaethol.
- 3.16 Gan gyfeirio at yr effaith ar y dirwedd ehangach, mae Polisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd yn datgan y dylai graddfa datblygiad newydd, gan gynnwys ei osodiad a'i dirlunio barchu a gwarchod cymeriad y dirwedd. Yn benodol, mae'r polisi yn anelu at warchod ardaloedd cymeriad tirwedd yn seiliedig ar LANDMAP. Mae LANDMAP yn system wybodaeth ddaearyddol Cymru gyfan sy'n seiliedig ar adnoddau tirwedd. Mae'n cynnwys pum 'Agwedd a Werthuswyd' sef Tirwedd Ddaearegol, Cynefinoedd Tirwedd, Gweledol a Synhwyraidd, Tirwedd Hanesyddol a'r Dirwedd Ddiwylliannol.
- 3.17 Mae'r cynnig hwn wedi'i ymgorffori o fewn ardal ddiffiniedig fwy ar gyfer yr ardal
gofynion asesiad LANDMAP. Mae'r ardal hon yn ymgorffori'r Afon Cwmnantcol ac ardaloedd ucheldirol y Rhinogau. O ran y gweledol a synhwyraidd ac agweddau tirwedd daearegol, y cyfan ardal o werth uchel a rhagorol. Yr argymhelliad ar gyfer yr ardal hon yw y dylid ei chadw yn ei chyflwr presennol.
- 3.18 Gan fod Cwm Nantcol yn dirwedd sensitif o ansawdd uchel iawn, yn arbennig
mae sylw ac ystyriaeth wedi ei roi i'r cynnig hwn. Mae'n amheus a ellir integreiddio elfennau o'r cynnig o fewn y tirlurf presennol ac o fewn coed presennol. Er na fydd y cynnig yn weledol amlwg ar dir uwch pell, bydd yn weladwy iawn o olygfeydd ehangach y cyhoedd o'r llwybr troed sy'n rhedeg yn uniongyrchol drwy'r safle. Oherwydd natur a dyluniad y datblygiad arfaethedig, bydd yn methu ag integreiddio a gwarchod rhinweddau unigryw'r ardal ehangach hon ac yn y pen draw yn cael effaith annerbyniol ar y dirwedd.
- 3.19 Fel y cyfryw, nid yw swyddogion yn ystyried bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisi Datblygu 1 na DP 2.

DP18 - Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau

- 3.20 Mae DP18 yn gofyn am gyflwyno 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol' ar gyfer ceisiadau am ddatblygiadau twristiaeth sy'n creu deg neu fwy o unedau gwyliau.
- 3.21 Nid oes datganiad o'r fath wedi ei gyflwyno .
- 3.22 Nid yw'r cynnig yn bodloni gofyniad PD 18.

Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ecoleg

- 3.23 Mae safle'r cais o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae'r cais yn cynnwys cyflwyno Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol, a gomisiynwyd mewn perthynas â'r cais i ddefnyddio'r safle fel 'gwasanaeth *casglu stoc marw*'.
- 3.24 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac Ecolegydd yr Awdurdod wedi codi pryderon sylweddol ac wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan fod yr asesiad Ecolegol a'r mesurau lliniaru yn ymwneud â chynnig gwahanol, ac nid â'r cynnig presennol, ac felly nid yw'r adroddiad yn addas i'r diben. gan nad yw manylion mesurau lliniaru wedi'u cynnwys.
- 3.25 Mae CNC hefyd yn datgan gan na chynigir unrhyw oleuadau allanol, byddent yn disgwyl i unrhyw effeithiau goleuo gweddilliol gael eu hasesu mewn adroddiad ecolegol wedi'i ddiweddarau.
- 3.26 Mae angen rhoi sylw hefyd i'r asesiad o risgiau llygredd i'r amgylchedd dŵr sy'n deillio o osod 10 pod a bloc cawodydd cysylltiedig.
- 3.27 Nid oes unrhyw wybodaeth wedi ei gyflwyno ynglŷn â lleoliad y tanc septig a'r cae draenio arfaethedig. Nid yw'r cais, felly, yn rhoi sail ddigonol i asesiad gael ei wneud o'r risgiau o lygredd i'r amgylchedd dŵr yn deillio o'r datblygiad arfaethedig.
- 3.28 Tra bo'r cais yn un am ganiatâd cynllunio amlinellol mae'r cais yn manylu ar yr angen i dorri a llenwi er mwyn gwneud lle i'r Podiau. Gallai gwaith o'r fath gael effaith ar dirwedd yr ardal. Nid yw CNC na'r Awdurdod yn gallu asesu'r effaith hon heb ragor o wybodaeth.
- 3.29 Mae'n amlwg o'r ymateb gan CNC ac Ecolegydd yr Awdurdod, ar y wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais, na all CNC a swyddogion asesu effeithiau llawn y cynnig ar y Parc Cenedlaethol.

- 3.30 Mae'r Asiant wedi cael gwybod am y pryderon a godwyd gan CNC . Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oes unrhyw ymateb pellach wedi ei dderbyn gan yr Asiant.

Traffig a Chludiant

- 3.31 Ceir mynediad i'r safle ar hyd rhwydwaith o briffyrdd bychain, llawer ohonynt yn gul mewn manau.
- 3.32 Byddai'r cynnig yn arwain at symudiadau cerbydau ychwanegol trwy Bentre Gwynfryn. Mae'r briffordd yn y man penodol hwn yn gul ac yn cael ei gwaethygu ymhellach gan barcio ar y stryd.
- 3.33 Er y byddai'r cynnig yn arwain at gynnydd mewn traffig drwy'r rhan yma o Bentre Gwynfryn, ar ôl pwyso a mesur ystyrir y byddai'r effaith traffig yn dderbyniol.

4.0 Casgliad


- 4.1 Dylai penderfyniadau cynllunio sicrhau bod datblygiad yn briodol i'w leoliad.
- 4.2 Ni fu unrhyw newid yn y polisi ers ystyried cais rhif NP5/62/63H ac mae'r polisïau datganedig yn parhau mewn grym.
- 4.3 Cydnabyddir fod cefnogaeth gan Gyngor Cymuned Llanbedr. Fodd bynnag, mae gwrthwynebiadau polisi clir a sylfaenol i'r cynnig hwn fel y manylir yn yr adroddiad. Felly ni ellir cefnogi'r cais.
- 4.4 Mae gwrthdaro hefyd gyda maen prawf (i) Polisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol o ran na fyddai'r cynnig yn cadw ac yn gwella'r "Rhinweddau Arbennig".
- 4.5 Wedi ystyried yr uchod a'r gofynion polisi, mae'n amlwg nad yw'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau mabwysiedig 1, 2, 18, 22 a 29 ac felly dylid ei wrthod.

ARGYMHELLIAD: GWRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO, am y rhesymau a ganlyn:

- 1. Am fod y cais hwn yn cynnig unedau llety newydd yng nghefn gwlad agored, nid yw'r cynnig yn bodloni gofyniad Polisi Datblygu 22.**
- 2. Nid yw'r cynnig ar raddfa fach ac nid yw'n rhan o gynllun arallgyfeirio amaethyddol nac yn atodol i atyniad twristiaeth newydd neu bresennol. O ganlyniad, mae'n groes i Bolisi Datblygu 29 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (2016-2031) a Chanllawiau Cynllunio Atodol 8 – Llety Ymwelwyr.**

3. **Trwy gyfrwng y cynnig byddai'n cyflwyno datblygiad newydd ar raddfa fawr o fewn cefn gwlad agored, ystyrir ei fod yn fath anaddas o ddatblygiad sy'n methu â gwella neu warchod 'Nodweddion Arbennig' y Parc Cenedlaethol a byddai'n cael effaith andwyol ar y Parc Cenedlaethol a chymeriad y dirwedd ehangach. Felly, mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1: Egwyddorion Datblygu Cyffredinol a Pholisi Datblygu 2: Datblygu a'r Dirwedd.**
4. **Oherwydd na ddarperir digon o fanylion o natur ecolegol, y gellir gwneud penderfyniad gwybodus yn eu cylch, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisiau SP D a DP 6 Cynllun Datblygu Lleol Eryri.**
5. **Oherwydd nad oes unrhyw wybodaeth wedi ei gyflwyno ynglŷn â lleoliad y tanc septig a'r cae draenio arfaethedig. Nid yw'r cais, felly, yn rhoi sail ddigonol i asesiad gael ei wneud o'r risgiau o lygredd i'r amgylchedd dŵr yn deillio o'r datblygiad arfaethedig. Mae'r cais hwn yn groes i bolisi DP1 Cynllun Datblygu Lleol Eryri, maen prawf xii.**
6. **Oherwydd nad oes 'Datganiad Cymunedol ac leithyddol' wedi'i gyflwyno y gellir gwneud penderfyniad gwybodus yn ei gylch, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisi DP18 Cynllun Datblygu Lleol Eryri.**

1.



Peidiwch a chymryd mesuriadau graddfa oddi ar y dyluniad hwn
 Os yn amau - gofynnwch
 Do not scale from this drawing
 If in doubt - ask

Mae'r dyluniad hwn yn hawffraint Penseiri Russell-Hughes ac ni
 chaniateir ei gopïo neu ei argynhyrchu heb ganiatad

This drawing is the copyright of Russell-Hughes architects and
 must not be copied or reproduced without permission

Cynllun - Job
**LAND KNOWN AS KENNELS,
 LLANBEDR**

Dyluniad - Drawing
LOCATION PLAN

Rhif Dyluniad - Drawing No.
2633:18:1

Graddfa - Scale
1:1250 A3


Dyddiad - Date
October 2018



56 Bridge Street,
 Llangefni,
 Ynys Mon
 LL77 7HH

Tel: 01248 722333
 Fax: 01248 750600
 E-mail: info@russellhughes.co.uk





Peidiwch a chymryd mesuriadau graddfa oddi ar y dyluniad hwn
 Os yn amau - gofynnwch
 Do not scale from this drawing
 If in doubt - ask

Mae'r dyluniad hwn yn hawffruint Penseiri Russell-Hughes ac ni
 chaniateir ei gopio neu ei atgynhyrchu heb ganiatod
 This drawing is the copyright of Russell-Hughes architects and
 must not be copied or reproduced without permission

Cynllun - Job

**LAND KNOWN AS KENNELS,
 LLANBEDR**

Dyluniad - Drawing

EXISTING SITE PLAN.

Rhif Dyluniad - Drawing No.

2633:18:2

Graddfa - Scale

1:500@A3


Dyddiad - Date

January 2019


russell-hughes cyf
 penseiri/architects

56 Bridge Street,
 Llangefni,
 Ynys Mon
 LL77 7HH

Tel: 01248 722333
 Fax: 01248 750600
 E-mail: info@russellhughes.co.uk



NOTES:



FOOTPATH


EXISTING BUILDING

Track

ebd	
environmental business development	
PROJECT: CYMRU LAN - GLAMPING PODS	
TITLE: OUTLINE DESIGN PROPOSAL	
AUTHOR: Richard Carter	REVIEWED:
DATE: 09/09/22	DRAWING ID: CYM-ODP-2
SCALE: 1:500 @ A3	BLANK:
VERSION: 1	BLANK:

6000

3300



FLOOR PLAN

Do not scale from this drawing
 All dimensions are to be checked onsite
 This drawing is not to be used for construction purposes

This drawing is copyright of
 MR Joinery
 North Wales Ltd trading as Cedar Tree Pods.

MR Joinery reserve the right to alter/replace the stated
 products/manufacturers as require suiting specific requirement and/or
 availability

PROJECT:			
DRG TITLE XL Grande glamping pod			
DRG NO	REV	SCALE	DATE
I	A	NTS	Aug 2021



Cedar Tree Pods

GERWYN FECHAN, ROYTON, WREXHAM, LL13 0SL.
 t: 01978 780859 e: info@cedartreepods.co.uk
 m: 07852 879663 w: www.cedartreepods.co.uk



**PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD
25 IONAWR 2023**

**RHYBUDDION GORFODAETH,
RHYBUDDION GORFODAETH
ADEILAD RHESTREDIG A
GYFLWYNWYD O DAN BWERAU
DIRPRWYEDIG A RHESTR O
ACHOSION CYDYMFFURFIAETH**

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

PWYLLGOR CYNLLUNIO A MYNEDIAD, 25ed o Ionawr 2023

RHESTR O ACHOSION CYDYMFFURFIAETH

Achosion newydd

	Cyfeirnod	Dyddiad y gŵyn gyntaf neu'r Dyddiad y'i gwelwyd gan Swyddogion Cydymffurfiaeth	Lleoliad y Safle	Manylion Tor-rheolaeth Cynllunio Honedig	Sefyllfa ar adeg afftio'r adroddiad hwn
1	NP3/15/ENF4J	Tachwedd 2022	2, Mur Mawr, Llanberis, Caernarfon, LL554TG	Defnyddio'r adeiladau allanol fel llety gwyliau heb ganiatâd cynllunio	Cysylltwyd â'r perchennog. Achos yn cael ei drafod.
2	NP4/11/ENF396	Hydref 2022	Oakdale, Betws y Coed, LL24 0AR	Estyniadau heb gael eu hadeiladu yn unol â chynlluniau a gymeradwywyd	Cysylltwyd â'r perchennog a chynhaliwyd ymweliad safle. Aros am i gais cynllunio gael ei gyflwyno
3	NP4/19/ENF62A	Tachwedd 2022	Tir ger Tyrau Duon, Sychnant, Conwy. LL32 8BZ	Adeiladu strwythur tebyg i ysgubor heb ganiatâd cynllunio	Cysylltwyd â'r perchennog a chynhaliwyd ymweliad safle.

4	NP5/54/ENFLB210D	Rhagfyr 2022	Caerynwch, Brithdir, Dolgellau LL40 2RF	Gwaith diawdurdod i gwrtil adeiladau Rhestredig	Cysylltwyd â'r perchennog ac mae cyfarfod safle wedi'i drefnu.
5	NP5/54/ENF445B	Ionawr 2023	Toiledau cyhoeddus, Rhydymain, LL40 2DE	Newid defnydd anawdurdodedig o doiled cyhoeddus i lety gwyliau	Llythyr wedi ei anfon at y perchennog. Aros am ymateb.
6	NP5/57/ENFLB341A	Rhagfyr 2022	Bryn House, Cader Road, Dolgellau LL40 1RS	Newidiadau i ffenestri adeilad rhestredig	Cysylltwyd â'r perchennog ac mae cyfarfod safle wedi'i drefnu.
7	NP5/61/ENF637B	Tachwedd 2022	Beaumont, Old Llanfair Road, Harlech. LL46 2SS	Gwaith peirianyddol yn cael ei wneud heb ganiatâd cynllunio	Cysylltwyd â'r perchennog. Aros a i gais cynllunio gael ei gyflwyno.
8	NP5/61/ENF151D	Rhagfyr 2022	Tir tu ol i Morfa Garage, Harlech. LL46 2UW	Cyflwr blêr y tir sy'n cael ei ddefnyddio fel iard sgrap	Llythyr wedi ei anfon at y perchennog. Aros am ymateb.
9	NP5/64/ENF92F	Tachwedd 2022	Llain y Pistyll, Llanegryn. LL36 9LN	Carafán sefydlog wedi ei lleoli ar y safle heb ganiatâd	Cysylltwyd â'r perchennog sydd wedi cadarnhau y bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i osod y garafán ar y safle.

10	NP5/68/ENF195B	Hydref 2022	13 Garreg Frech, Llanfrothen, LL48 6BZ	Cyflwr blêr yr eiddo	Llythyr wedi ei anfon at y perchennog. Aros am ymateb.
11	NP5/77/ENF31L	Tachwedd 2022	Caerffynnon Hall, Talsarnau, LL476TA	Estyniad gwydr wedi'i adeiladu heb ganiatâd cynllunio	Cysylltwyd â'r perchennog. Cais ôl-weithredol wedi'i dderbyn.

Yn disgwyl Cais Ôl-weithredol / Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig / Cais Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd /7Ddatblygiad sy'n Bodoli

29.	NP5/69/301G	Rhyddhau Amod Rhif 2 (cynllun planu coed) o Ganiatad Cynllunio NP5/69/301F dyddiedig 06/05/2022	Parc Carafanau Llwyn Du, Llwyngwrl, LL37 2JH	28/11/22	Ms. Sophie Berry
30.	NP5/69/413	Cais ol-weithredol i gadw sistem pwmp gwres o'r ddaear	Cae ger Fferm Hendre Hall, Llwyngwrl. LL37 2JF	23/11/22	Mrs. Alys Tatum
31.	NP5/78/478C	Diwygiad i Ganiatad Cynllunio NP5/78/478A sy'n cynnwys cynnydd yn uchder y to un goleddf i ganiatau defnyddio llechi fel deunyddiau ynghyd â chynnwys ffenestri to	Ty'n-y-Bryn, Trawsfynydd. LL41 4UU	28/11/22	Mrs. Alys Tatum

Ceisiadau wedi ei gwrthod

	Rhif y Cais	Bwriad	Lleoliad	Rheswm Gwrthod	Swyddog Achos
1.	NP4/23/46C	Codi adeilad amaethyddol pwrpas cyffredinol	Cae Haidd, Llanfairfechan. LL33 0EE	<p>23/11/22</p> <p>Oherwydd na ddarparwyd digon o fanylion o natur archeolegol y gellir gwneud penderfyniad gwybodus arnynt, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisïau CDLIE PS Ff a PD 6.</p> <p>Oherwydd na ddarparwyd digon o fanylion am natur ecolegol y gellir gwneud penderfyniad gwybodus yn ei gylch, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisïau CDLIE PS D a PD 6.</p>	Mr Richard Thomas

2.	NP4/26/329B	Dymchwel ystafell wydr bresennol, codi estyniad unllawr ar yr ochr a'r cefn, codi estyniad i'r ports blaen, codi estyniad ochr unllawr i'r garej, a chodi dormer mewnlenni to fflat	Nant Canol, Nebo, Llanrwst. LL26 0RD	14/12/22 Oherwydd bod y cais hwn yn cynnig yr estyniadau sy'n cael eu hystyried - ar y cyd ag estyniadau blaenorol, - o faint gormodol a fyddai'n effeithio'n andwyol ar gymeriad ac edrychiad y tŷ annedd traddodiadol gwreiddiol. Mae'r cais hwn felly'n gwrthdaro â pholisi 15 CDLIE. Oherwydd y cais hwn sy'n cynnig estyniadau yr ystyrir eu bod yn cyflwyno ffurf, dyluniad a defnydd o ddeunyddiau a fyddai'n niweidio cymeriad ac edrychiad tŷ annedd traddodiadol mae'r cais hwn yn groes i bolisi CDLIE 6, 7 a 15 a chanllawiau dylunio nodyn E11. Oherwydd nad oes digon o wybodaeth o natur ecolegol a bioamrywiaeth yn cael ei chyflwyno y gellir ei defnyddio i roi ystyriaeth lawn i'r cais hwn, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisi D o CDLIE.	Mr Richard Thomas
3.	NP4/29/177A	Adeiladu sied wartheg ar wahan a storfa tail/gwair cysylltiedig	Fferm Carrog, Cwm Penmachno. LL24 0RG	23/11/22 Oherwydd na ddarperir digon o fanylion o natur ecolegol, y gellir gwneud penderfyniad gwybodus yn ei gylch, mae'r cais hwn yn gwrthdaro â pholisïau CDLIE PS D a PD 6.	Mr Richard Thomas
4.	NP4/32/LU372A	Tystysgrif Defnydd Cyfreithlon (Arfaethedig) ar gyfer amnewid y sied bren presennol	Pant y Carw Cottage, Llanrwst. LL26 0PW	16/12/22 Ystyrir bod lleoliad y sied arfaethedig, tua 20m o'r annedd, y tu hwnt i ffin y cwrtil domestig. O ystyried hyn nid yw'n cael ei gynnwys yn yr hawliau datblygu a ganiateir fel y'u hamlinellir yn y GDPO. Yn ogystal, byddai'r sied arfaethedig yn fwy na'r terfyn o 10 metr ciwbig fel y'i gosodwyd gan Ran 1 Dosbarth E(f) o'r GDPO.	Mr Richard Thomas

5.	NP5/53/LB75Q	Newid defnydd y lloriau uchaf yn 2 uned llety gwyliau hunan cynhaliol tymor byr	Banc Barclays, 68-70 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AD	<p>24/11/22</p> <p>Nid yw'r defnydd arfaethedig o osodiadau gwyliau tymor byr yn dangos na fydd y ffosffadau o fewn y dŵr gwastraff sy'n gysylltiedig â'r defnydd yn cael unrhyw effaith andwyol ar ansawdd dŵr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, Y Bala. Mae'r ACA ddynodedig yn cael ei chydabod o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ar gyfer y rhywogaethau y mae'n eu cynnal, ac mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd o fewn y dalgylch ddangos niwtraliaeth neu welliant ffosffad. Mae'r cynnig felly yn groes i Bolisi Strategol D Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Eryri (Chwefror 2019).</p> <p>Nid yw'r Datganiad Dylunio a Mynediad a gyflwynwyd gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (Ty Architecture, Medi 2022) yn ddigon manwl ac o ganlyniad nid yw'n asesu effaith y newidiadau arfaethedig ar yr Adeilad Rhestredig Gradd II yn briodol. Mae'r cynnig felly yn groes i baragraff 6.1.13 o 'Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021)', paragraff 1.15 o 'Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017)' ac i 'Polisi Strategol Ff Amgylchedd Hanesyddol' a 'Polisi Datblygu 7 Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol o Gynllun Datblygu Lleol Eryri Mabwysiedig (Chwefror 2019).</p> <p>Nid oes digon o fanylion wedi'u cynnwys ar y lluniadau a gyflwynwyd ac o ganlyniad nid ydynt yn caniatáu asesu effaith yr holl newidiadau arfaethedig ar yr adeilad rhestredig Gradd II yn gywir. Mae'r cynnig felly yn groes i baragraff 6.1.10 o 'Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021)', paragraff 5.9 o 'Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol'</p>	Ms. Emma Watkins
----	--------------	---	---	--	------------------

				<p>(Mai 2017)' ac i 'Polisi Strategol Ff Amgylchedd Hanesyddol' a ' Polisi Datblygu 7 Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol' o Gynllun Datblygu Lleol Eryri Mabwysiedig (Chwefror 2019).</p> <p>Lle y'i diffinnir (inswleiddiad Kingspan ar y waliau allanol, y nenfydau crog, y defnydd o fyrddau 'chip' ar gyfer lloriau, y mesurau acwstig (nenfydau a waliau cydrannol)), byddai elfennau o'r gwaith arfaethedig yn rhinwedd eu heffaith andwyol a niwed i'r ffabrig hanesyddol a gedwir, deunyddiau a dulliau inswleiddio a gwrthsain anghydnaws yn effeithio'n andwyol ar gymeriad a diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yr adeilad rhestredig. Mae'r cynnig felly yn groes i baragraff 6.1.13 o 'Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021)', paragraff 5.13 o 'Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017), 'Polisi Datblygu 1 Egwyddorion Datblygu Cyffredinol (maen prawf iv) ', 'Polisi Datblygu 6 Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy' a 'Pholisi Datblygu 7 Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol' Cynllun Datblygu Lleol Eryri Mabwysiedig (Chwefror 2019).</p>	
6.	NP5/53/LB75R	Caniatad Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol mewn perthynas a newid defnydd i 2 uned llety gwyliau	Banc Barclays, 68-70 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AD	<p>24/11/22</p> <p>Nid yw'r Datganiad Dylunio a Mynediad a gyflwynwyd gan gynnwys Aseiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (Ty Architecture, Medi 2022) yn ddigon manwl ac o ganlyniad nid yw'n asesu effaith y newidiadau arfaethedig ar yr Adeilad Rhestredig Gradd II yn briodol. Mae'r cynnig felly yn groes i baragraff 6.1.13 o 'Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021)', paragraff 1.15 o 'Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017)' ac i 'Polisi Strategol Ff Amgylchedd Hanesyddol' a 'Polisi Datblygu 7 Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol o Gynllun Datblygu Lleol Eryri Mabwysiedig (Chwefror 2019).</p>	Ms. Emma Watkins

				<p>Nid oes digon o fanylion wedi'u cynnwys ar y lluniadau a gyflwynwyd ac o ganlyniad nid ydynt yn caniatáu asesu effaith yr holl newidiadau arfaethedig ar yr adeilad rhestredig Gradd II yn gywir. Mae'r cynnig felly yn groes i baragraff 6.1.10 o 'Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021)', paragraff 5.9 o 'Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017)' ac i 'Polisi Strategol Ff Amgylchedd Hanesyddol' a 'Polisi Datblygu 7 Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol' o Gynllun Datblygu Lleol Eryri Mabwysiedig (Chwefror 2019).</p> <p>Lle y'i diffinnir (inswleiddiad Kingspan ar y waliau allanol, y nenfydau crog, y defnydd o fyrddau 'chip' ar gyfer lloriau, y mesurau acwstig (nenfydau a waliau cydrannol)), byddai elfennau o'r gwaith arfaethedig yn rhinwedd eu heffaith andwyol a niwed i'r ffabrig hanesyddol a gedwir, deunyddiau a dulliau inswleiddio a gwrthsain anghydnaws yn effeithio'n andwyol ar gymeriad a diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yr adeilad rhestredig. Mae'r cynnig felly yn groes i baragraff 6.1.13 o 'Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021)', paragraff 5.13 o 'Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017)', 'Polisi Datblygu 1 Egwyddorion Datblygu Cyffredinol (maen prawf iv) ', 'Polisi Datblygu 6 Dyluniad a Deunyddiau Cynaliadwy' a 'Pholisi Datblygu 7 Adeiladau Rhestredig a Thraddodiadol' Cynllun Datblygu Lleol Eryri Mabwysiedig (Chwefror 2019).</p>	
--	--	--	--	---	--

7.	NP5/54/456A	Codi caban i'w ddefnyddio fel annedd menter wledig ynghyd a decin, parcio, trac a tanc septig cysylltiedig	Penarddwnion Fach, Pen y Main, Dolgellau. LL40 2DH	<p>21/12/22</p> <p>Mae diffyg eglurder yn y wybodaeth a gyflwynwyd ac nid yw'n ddigon cadarn ac nid yw'n dangos angen hanfodol am weithiwr preswyl er mwyn i'r fenter weithredu'n briodol, bod y fenter yn ariannol gynaliadwy neu a oes llety arall ar gael i'w feddiannu neu ei addasu. Yn unol â hynny, mae'r cais yn gwrthdaro â Pholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021), NCT6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy a Pholisi Strategol C (xxi) o Gynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig.</p> <p>Byddai lleoliad arfaethedig yr annedd draw oddi wrth adeiladau presennol, byddai defnyddio cladin pren a chreu'r fynedfa a'r dreif arfaethedig yn arwain at fath o ddatblygiad a fyddai'n ymddangos yn anghydnaws o fewn y lleoliad gwledig agored ac yn amharu ar edrychiad a chymeriad yr hyn sydd o'i amgylch. Fel y cyfryw mae'n groes i Bolisi Strategol A a Pholisïau Datblygu 1, 2, 6 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.</p> <p>Ni roddwyd digon o ystyriaeth i ecoleg y safle ac felly nid yw effaith y bwriad ar rywogaethau a chynefinoedd a warchodir a chadwraeth bioamrywiaeth wedi ei ystyried yn foddhaol. Fel y cyfryw, mae'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisïau Strategol A a D a Pholisi Datblygu 1(v) o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.</p>	Ms. Sophie Berry
8.	NP5/59/806	Codi estyniad cefn unllawr yn cynnwys teras tô	Hafan, Trem Hyfryd, Llan Ffestiniog. LL41 4NU	<p>29/11/22</p> <p>Mae'r bwriad yn groes i faen prawf iii Polisi Datblygu 1 (Egwyddorion Datblygu Cyffredinol) sy'n mynnu nad yw datblygiad yn rhy amlwg yn y tirwedd ac na fydd yn niweidio mwynder eiddo cyfagos.</p>	Mr Aled Lloyd

				Mae'r cynnig yn groes i Bolisi Datblygu 15 (Estyniadau) sy'n caniatáu estyniadau i anheddau presennol cyn belled nad ydynt yn amharu ar yr eiddo neu gymeriad yr ardal o'i amgylch.	
9.	NP5/61/548A	Dymchwel yr ystafell haul ac adeiladu estyniad unllawr gyda to gwastad ar yr ochr	Buckland (hefyd yn cael ei adnabod fel Ymyl y Niwl), Ffordd Uchaf, Harlech. LL46 2SS	23/11/22 Oherwydd bod y bwriad hwn yn cyflwyno estyniad to fflat helaeth o ddyluniad estron a gorffeniadau deunydd to, byddai'r datblygiad yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1 - Egwyddorion Datblygu Cyffredinol, Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Eryri. Nod y polisi hwn yw gwarchod a gwella nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys cymeriad a ffurf yr anheddau presennol. Mae'r bwriad hefyd yn groes i Bolisi Datblygu 15 (Estyniadau) sy'n caniatáu estyniadau i dai presennol cyn belled nad ydynt yn amharu ar yr eiddo na chymeriad yr ardal o'i amgylch.	Mr Aled Lloyd
10.	NP5/66/224A	Diwygiad ansylweddol i Ganiatad Materion a Gadwyd yn ol NP5/66/PIAW224 dyddiedig 21/03/2012 i osod paneli ffotofoltäig ar y drychiad blaen, a newid uchder y crib	Tir ger Tyddyn Llwyn, Llandanwg. LL46 2SD	25/11/22 Diwygiadau 'sylweddol' eu natur gan y byddant yn arwain at a ffurf sylweddol o newid i'r caniatâd cynllunio gwreiddiol. Oherwydd ni ellir ystyried y newidiadau arfaethedig yn newid 'ansylweddol' a bydd angen caniatâd cynllunio newydd arnynt.	Mr Aled Lloyd
11.	NP5/71/485	Adeiladu garej newydd ynghlwm gyda llety gorlif ar gyfer y prif annedd ar y llawr cyntaf	Bryn Derw, Llanuwchllyn. LL23 7ST	25/11/22 Oherwydd ei gynigion dylunio (gan gynnwys ychwanegu to fflat a diffyg cysylltedd llawr cyntaf), ei ffurf a'i raddfa, byddai'r cynnig / bwriad yn cael effaith andwyol ar gymeriad a gosodiad Bryn Derw a Bythynnod Coed y Lon.	Mr. Dafydd Thomas

				<p>Mae'r cynnig felly yn groes i Bolisi Datblygu 1, 14 a 15 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri a CCA 11 sy'n ceisio sicrhau na fydd unrhyw estyniad yn cael effaith andwyol ar fwynderau lleol, yn gydnaws â chymeriad y tŷ presennol a bod unrhyw lety anecs yn atodol i'r prif annedd o ran ei raddfa, defnydd a dyluniad.</p>	
12.	NP5/73/4P	Adeiladu pod gegin/ystafell ymolchi Wardeniaid ochr yn ochr a llain bresennol y Wardeiniaid	Caravan Club Site, Coed y Llwyn, Gellilydan. LL41 4EN	<p>23/11/22</p> <p>Oherwydd bod y cynnig hwn yn cyflwyno pod to fflat parhaol o ddyluniad estron, byddai'r datblygiad yn gwrthdaro â Pholisi Datblygu 1 (Egwyddorion Datblygu Cyffredinol) a Pholisi Datblygu 2 (Datblygu a'r Dirwedd) o Gynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Eryri, sy'n anelu at warchod a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a pharchu a gwarchod cymeriad y dirwedd.</p> <p>Byddai'r cynnig yn groes i Bolisi Datblygu 23 o Gynllun Datblygu Lleol Eryri mabwysiedig, sy'n datgan y dylai unrhyw uwchraddiad fod yn briodol o fewn y dirwedd.</p>	Mr Aled Lloyd



Penderfyniad ar yr Apêl	Appeal Decision
Ymweliad â safle a wnaed ar 02/12/22	Site visit made on 02/12/22
gan R Duggan BSc (Anrh) DipTP MRTPI	by R Duggan BSc (Hons) DipTP MRTPI
Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru	an Inspector appointed by the Welsh Ministers
Dyddiad: 10.01.2023	Date: 10.01.2023

Cyf yr apêl: CAS - 02305

Cyfeiriad y safle: The Exchange, 4 Terrace Road, Aberdyfi LL35 0LP

Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan Ms Lee Thomas yn erbyn y penderfyniad gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Disgrifir y datblygiad a gynigir fel *“Newidiadau i ardal patio blaen gan gynnwys gosod drysau dyblyg. Adeiladu balconïau newydd a gosod drysau dyblyg ar y drychiad blaen.”*

Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

Prif Faterion

2. Ystyriaf mai'r prif faterion yw effaith y datblygiad ar gymeriad ac edrychiad yr annedd letyol, ar gymesuredd y pâr o dai, ac ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol; a ph'un a fyddai'n cadw neu'n gwella cymeriad neu edrychiad Ardal Gadwraeth Aberdyfi.

Materion Gweithdrefnol

3. Mae cynigion yr apêl yn ymwneud â nifer o newidiadau i ddrychiad blaen eiddo'r apêl, gan gyfnewid ffenestri gan gynnwys y ffenestr fae ar y llawr cyntaf a gosod drysau deublyg yn lle'r ffenestri ar y llawr gwaelod, y llawr cyntaf a'r ail lawr; gosod balconi â balwstrad gwydr o'i amgylch ar lefel y llawr cyntaf, a balconi Juliette gwydrog ar lefel yr ail lawr; a chreu teras caeedig ar y llawr gwaelod wrth ymestyn wal derfyn bresennol a rheiliau i amgáu'r cwrtil blaen. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes unrhyw gyfyngiad ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer anheddau domestig yn yr ardal ac mai dim ond creu'r balconi ar y llawr cyntaf sydd angen caniatâd cynllunio. Boed hynny fel y bo, gwnaed cais llawn ac fe'i gwrthodwyd gan yr Awdurdod, ac mae apêl wedi'i chyflwyno. Felly, mae angen penderfynu ar yr apêl fel y'i cynigir.

Rhesymau

4. Mae safle'r apêl yn dŷ pâr pedwar llawr sy'n wynebu Terrace Road ac yn edrych dros Aber Afon Dyfi. Nid yw'r eiddo yn adeilad rhestredig ond mae wedi'i leoli o fewn Ardal Gadwraeth Aberdyfi. Mae'r pâr o dai yn arddangos unffurfiaeth amlwg o ran arddull bensaernïol ac maent yn nodwedd drawiadol iawn wrth agosáu ar hyd y ffordd fawr. Er y bu rhai mân newidiadau i ffenestri a ffasâd y ddau eiddo, ceir llawer o gysondeb yn nrychiadau blaen Rhifau 3 a 4. Yn fy marn i, mae dyluniad pensaernïol, cymesuredd a lleoliad amlwg y ddau eiddo yn gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol i gymeriad ac edrychiad y strydlun a'r rhan hon o'r Ardal Gadwraeth.
5. Yn y cyd-destun hwn, rwyf o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r drychiad, yn enwedig creu'r balconi ar y llawr cyntaf a'r defnydd o ddeunyddiau modern megis y balwstrad gwydr, yn cyferbynnu'n anffafriol â drychiad blaen eiddo'r apêl a'i gymydog. Byddai'r cynnig yn methu ag ailadrodd ceinder ac uniondeb y gwaith coed wedi'i baentio â llaw sy'n hanfodol i ddiwylledd edrychiad traddodiadol yr adeilad a'i nodweddion pensaernïol. Byddai'r balconi, yn arbennig, yn tanseilio hunaniaeth a chyfansoddiad y pâr o anheddau oherwydd y byddai'n or-ddominyddol ac yn amharu'n annerbyniol ar gydbwysedd gweledol y pâr hwn o dai.
6. Rwy'n ymwybodol o'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol 12 'Dylunio' (TAN12) sy'n cynghori: *'Mae darparu ymateb dylunio ystyrlon a chynaliadwy yn dibynnu ar ddeall y safle a'i gyd-destun agos ac ehangach... Bydd cyfleoedd ar gyfer dylunio arloesol yn dibynnu ar gyd-destun presennol y datblygiad, ac i ba raddau y mae nodweddion hanesyddol, pensaernïol, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal yn mynnu neu'n llesteirio ateb dylunio penodol.'*
7. Felly, o ystyried cyd-destun penodol eiddo'r apêl, rwyf o'r farn y byddai'r cynnig yn cael eu hystyried yn newidiadau anghydweddol i'r drychiad blaen gan achosi niwed gweledol i'r eiddo lletyol, ac i gymesuredd y pâr o dai, ac i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Yn ogystal, o ystyried y ddyletswydd a osodir gan Adran 72(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ac o ystyried cymeriad cyffredinol yr ardal, rwyf o'r farn na fyddai'r cynnig yn cadw neu'n gwella cymeriad ac edrychiad yr ardal gadwraeth. Am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn y byddai'r cynllun yn mynd yn groes i Bolisi Datblygu 1 a Pholisi Strategol Ff Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLI) sydd, ymhlith pethau eraill, â'r nod o gadw a gwella rhinweddau a dibenion arbennig y Parc Cenedlaethol a diogelu tirwedd hanesyddol, asedau treftadaeth a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.
8. Mae'r apelydd wedi tynnu fy sylw at nifer o enghreifftiau eraill o falconïau a balwstradau gwydr ar dai yn Aberdyfi ac wedi darparu ffotograffau ohonynt. Fodd bynnag, er fy mod yn derbyn bod y rhain yn bodoli, ychydig o wybodaeth a roddwyd i mi am eu hanes cynllunio. Serch hynny, beth bynnag yw'r cefndir, nid yw eu bodolaeth yn gyfiawnhad priodol dros ganiatáu'r datblygiad a gynigir yma. Mae amgylchiadau safleoedd eraill yn debygol o fod yn wahanol ac mae'n egwyddor sefydledig ym maes cynllunio fod pob cynnig yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun, fel rwyf wedi'i wneud yn yr achos hwn.
9. Gwerthfawrogaf fod yr Apelydd yn bwriadu defnyddio'r eiddo fel annedd deuluol yn hytrach na llety gwyliau. Fodd bynnag, anaml y mae amgylchiadau personol yn gorbwyso materion cynllunio cyffredinol, oherwydd byddai effaith y datblygiad yn parhau ymhell ar ôl i'r amgylchiadau personol beidio â bod yn berthnasol. I'r perwyl hwnnw, yn sgil ystyried yr holl faterion perthnasol, rhoddaf ychydig iawn o bwys i'r amgylchiadau personol a nodwyd gan yr Apelydd, ac nid ydynt wedi bod yn ffactorau pennu yn fy mhenderfyniad.

Materion eraill

10. Mae'r ail reswm dros wrthod yn cyfeirio at y diffyg o ran gwella bioamrywiaeth fel rhan o'r datblygiad a gynigir. Mae Polisi 9 Cymru'r Dyfodol yn datgan, ymhlith pethau eraill: '*Ym mhob achos, dylai camau gweithredu tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth (er mwyn sicrhau mantais net), gwneud ecosystemau yn gadarn ac asedau seilwaith gwyrdd gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol yn seiliedig ar natur o gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig.*'
11. Er nad yw'r Apelydd wedi cyflwyno unrhyw fesurau gwella bioamrywiaeth, gellid sicrhau'r rhain wrth osod amod wedi'i eirio'n addas pe bai'r apêl wedi llwyddo.

Casgliadau

12. Ar ôl rhoi sylw i'r uchod ac ystyried yr holl faterion eraill a godwyd, deuaif i'r casgliad y dylid gwrthod yr apêl.
13. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adran 3 ac adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriaif fod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at amcanion Llesiant Gweinidogion Cymru o greu economi gryfach a gwyrddach wrth i ni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl, gan wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt, ac ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

R. Duggan

AROLYGYDD



Penderfyniad ar yr Apêl

Ymweliad â safle a wnaed ar 6/09/22

gan Iwan Lloyd BA BTP MRTPI

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 16/12/2022

Appeal Decision

Site visit made on 6/09/22

by Iwan Lloyd BA BTP MRTPI

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date: 16/12/2022

Cyf yr apêl: CAS-01731-F6B4H6

Cyfeiriad y safle: Caffi Weary Walkers, High Street, Harlech LL46 2YB

Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo'r awdurdod i benderfynu ar yr apêl hon i mi fel yr Arolygydd penodedig.

- Cyflwynir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Cyflwynir yr apêl gan Sylvester yn erbyn penderfyniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
- Y datblygiad a gynigir yw newid defnydd bwyty llawr gwaelod a llawr gwaelod isaf o fwyd a diod (A3) i dŷ annedd (C3). Tynnu ffenestr siop ymaith ac adfer y ffryntiad ar linell wreiddiol yr adeilad. Adeiladu balconi ar lefel y llawr gwaelod yn y cefn. Mwyhau ffenestr bresennol i ffurfio drws patio.

Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

Y Prif Faterion

2. Y prif faterion yn yr achos hwn yw:
 - p'un a yw'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r cynllun datblygu, ac os na, p'un a oes ystyriaethau eraill perthnasol sy'n ddigonol i wrthbwysu unrhyw wrthdaro â'r cynllun datblygu, a
 - ph'un a fyddai'r datblygiad arfaethedig yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu olwg Ardal Gadwraeth Harlech.

Rhesymau

Polisi'r cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol yn ymwneud â hyfywedd

3. Mae'r cyn gaffi wedi'i leoli ar gornel y Stryd Fawr gyferbyn â chyffordd Bron y Graig a maes parcio. Nid yw'r caffin masnachu mwyach ond mae'r llety preswyl ar y lloriau uchaf yn cael ei feddiannu. Mae adeilad yr apêl wedi'i leoli o fewn ardal fanwerthu Harlech, a'r Ardal Gadwraeth fel y'i diffinnir gan Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Eryri 2016-2031.
4. Mae'r Awdurdod wedi gwrthod caniatâd ar y sail nad yw'r safle wedi cael ei farchnata'n ddiweddar fel busnes i ddangos nad oes diddordeb masnachol/cyflogaeth mewn

hyfywedd economaidd parhau â sefydliad bwyd neu ddiod neu ryw fath arall o ddefnydd masnachol/cyflogaeth sy'n cynnig defnydd manwerthu/busnes ar y Stryd Fawr cyn newid defnydd yr adeilad i ddefnydd preswyl. Gwrthwynebiad yr Awdurdod yw nad oes tystiolaeth ddiweddar i ddangos nad yw'r defnydd presennol yn hyfyw mwyach ac ni ellir ei ddefnyddio at ddiben tebyg neu amgen.

5. Cyfeirir at faen prawf ix Polisi Strategol H y CDLI yn y rheswm dros wrthod. Mae Polisi H yn nodi, er mwyn creu a chynnal economi wledig gynaliadwy, y bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn diogelu safleoedd cyflogaeth allweddol presennol yn y Bala, Dolgellau a Harlech. Mae'r polisi'n ceisio hyrwyddo ailddefnyddio tir neu adeiladau na wneir digon o ddefnydd ohonynt neu sy'n segur at ddibenion economaidd neu gyflogaeth, ymhlith pethau eraill. Mae'r polisi'n nodi y bydd cynigion ar gyfer ailddefnyddio tir neu adeiladau cyflogaeth presennol (heblaw am safleoedd cyflogaeth allweddol) at ddibenion eraill yn cael eu caniatáu dim ond lle nad yw cadw'r gyflogaeth neu'r busnes yn hyfyw mwyach, ac ni ellir ei ailddefnyddio at ddibenion cyflogaeth tebyg neu amgen ac mae'r potensial cyflogaeth wedi cael ei hysbysebu ar y farchnad am flwyddyn o leiaf.
6. Mae Polisi 24 y CDLI, y cyfeiriwyd ato yn adroddiad dirprwyedig y swyddog ar 11 Ionawr 2022, yn nodi y bydd newid defnydd safleoedd manwerthu llawr gwaelod (siopau A1) i ddefnyddiau preswyl neu lety gwyliau yn cael ei wrthwynebu yn yr ardaloedd manwerthu a amlygwyd yn Aberdyfi, y Bala, Betws-y-coed, Dolgellau a Harlech.
7. Prynodd yr apelydd yr eiddo yn 2012 ac roedd yr adeilad wedi bod ar y farchnad am 2 flynedd cyn iddo gael ei brynu. Mae'r apelydd yn cyfeirio at yr anawsterau sy'n wynebu prynwyr wrth gael morgais ar gyfer y safle sy'n rhannol fasnachol a rhannol breswyl. Mae Polisi 24 y CDLI yn cyfeirio at siopau Dosbarth A1 ac nid sefydliadau bwyd a diod Dosbarth A3 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r apelydd yn dadlau nad yw'r polisi hwn yn berthnasol i'r cynnig apêl hwn. Cynhaliodd yr apelydd fusnes llwyddiannus tra oedd yn byw uwchben y safle busnes. Nid yw'r fflat uwchben yn cynnwys cegin ac nid oes tŷ bach yn ardal y caffi a dim ond un fynedfa a rennir sy'n gwasanaethu'r caffi a'r fflat. Mae'r apelydd yn nodi y byddai'n anymarferol gosod mynedfa ar wahân i wasanaethu'r fflat.
8. Rhoddodd yr apelydd y gorau i fasnachu yn 2016 a rhoddodd y safle ar y farchnad rhwng 2016 a 2017. Ni ddangoswyd unrhyw ddiddordeb a phenderfynodd yr apelydd brydlesu'r eiddo a'r fflat. Roedd y brydles am 5 mlynedd ond nid oedd gan y prydleswr ddiddordeb mewn prynu'r safle ar ôl y tymor oherwydd bod cwmnïau morgais yn gofyn am flaendal 25-30%. Mae'r apelydd yn honni y byddent yn annhebygol o ddod o hyd i brynwr petai'r safle'n cael ei farchnata am flwyddyn. Mae'r apelydd o'r farn nad yw'r busnes yn hyfyw mwyach ac y byddai'r pâr eisiau byw yno gan eu bod bellach wedi ymddeol. Ni fydd y safle'n ailagor fel busnes o dan y berchnogaeth bresennol.
9. Mae'r apelydd yn cyfeirio at dri achos o newid defnydd safle masnachol i ddefnydd preswyl a ganiatawyd yn ddiweddar yn Harlech, ac mae'n credu bod y gynsail wedi cael ei gosod. Mae'r datblygiad arfaethedig ar ben pellaf y Stryd Fawr i fwrdd oddi wrth y brif ardal siopa ac mae Harlech eisoes yn cael ei gwasanaethu'n dda gan fwytai a chaffis.
10. Mae'r ardal fanwerthu a ddiffinnir yn y CDLI yn llinellol o ran ei gosodiad, gan ddilyn ardal graidd y Stryd Fawr. Mae'r safle gyferbyn â maes parcio arhosiad byr cyhoeddus a gerllaw siop bwyd brys arall a siop anrhegion o fewn y bloc teras. Arsylwais fod yr ardal gyffredinol yn rhesymol brysur o ran nifer yr ymwelwyr o ganlyniad i leoliad y maes parcio yn agos i weddill yr ardal fanwerthu ac atyniad twristiaid Castell Harlech. Mae gan y safle ffryntiad llydan ac amlwg ar gornel y stryd ac mae wedi'i leoli yn union wrth ymyl troedffordd gul.

11. Mae pwysau economaidd diweddar wedi cael effaith sylweddol ar ardaloedd manwerthu yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod yr ardal fanwerthu yn Harlech yn rhesymol fywiog o'r hyn a welais yn ystod fy ymweliad. Nid oedd yn amlwg i mi fod sawl eiddo gwag yn yr ardal hon. Roedd ystod y defnyddiau'n eithaf amrywiol ac roedd nifer yr ymwelwyr yn gymharol uchel. Roedd y maes parcio bron yn llawn pan ymwelais, sy'n awgrymu bod ardal fanwerthu Harlech yn elwa o ymwelwyr o ganlyniad i atyniad y castell fel cyrchfan treftadaeth hanesyddol ac fel anheddiad manwerthu lleol sy'n gwasanaethu'r ardal wledig.
12. Mae'r CDLI wedi diffinio ardal fanwerthu i Harlech i ddiogelu ei swyddogaeth fanwerthu, gan gydnabod ei bod yn llai na'r Bala a Dolgellau, ond ei bod yn cyflawni swyddogaeth fanwerthu wedi'i seilio ar dwristiaid ac fe'i hystyrir yn lleoliad cynaliadwy ar gyfer datblygiad manwerthu. Er nad yw'r defnydd presennol, sef defnydd Dosbarth A3 bwyd a diod, yn ddefnydd manwerthu Dosbarth A1 fel y cyfeirir ato'n benodol ym Mholisi 24, mae Polisi H yn ceisio gwarchod rhag colli defnyddiau cyflogaeth neu fusnes. Ceir newid neu ailddefnyddio'r safleoedd hyn at ddibenion eraill dim ond pan nad yw'r busnes yn hyfyw mwyach. Efallai bod y safle wedi bod yn wag ers peth amser, ond nid yw hynny'n arwydd o ardal fanwerthu sy'n dirywio gan nad yw'r safle wedi cael ei farchnata ers 5 mlynedd a bwriedir byw yn yr eiddo yn hytrach nag agor busnes. Nid yw hyn yn dangos na fyddai busnes yn hyfyw gan nad yw'r farchnad wedi cael ei phrofi.
13. Gallai darpar brynwr ddarparu defnydd busnes amgen ar gyfer y safle yn yr adeilad cyfan neu drwy wahanu'r defnyddiau sydd wedi'u cyfuno ar hyn o bryd. Er y dywedir na fyddai hyn yn ymarferol, nid yw wedi cael ei brofi'n ddiweddar yn y farchnad mewn gwirionedd. Cydnabyddaf yr anhawster wrth gael morgais masnachol a blaendal, ond mae hynny'n ddibynnol ar sawl ffactor, sef y pris, ymgais marchnata cadarn a'r diddordeb yn y farchnad mewn dechrau defnydd busnes neu gyflogaeth yn y lleoliad hwn.
14. Nodaf y pwynt am geisiadau newid defnydd eraill a ganiatawyd, ond nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'u hanes, p'un a oedd yr ystyriaethau polisi'n unfath neu b'un a oedd ystyriaethau perthnasol a oedd yn drech na'r holl ffactorau eraill er mwyn iddynt gael eu hystyried yn yr un cyd-destun â'r cynnig hwn. Rwyf wedi ystyried yr apêl hon ar sail ei rhinweddau unigol ac ar sail y dystiolaeth sydd ar gael a gyflwynwyd.
15. Ystyriaf na fyddai'r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi Strategol H y CDLI (maen prawf ix).
16. Deuaf i'r casgliad nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r cynllun datblygu, ac nad yw ystyriaethau eraill perthnasol yn ddigonol i wrthbwysu'r gwrthdaro â'r cynllun datblygu.

Yr Ardal Gadwraeth

17. Mae'r Ardal Gadwraeth yn eithaf helaeth. Mae'n rychwantu Castell Harlech hanesyddol a'i amgylchoedd, rhannau isaf Coleg Harlech a sawl ardal unigryw a ddiffinnir gan dopograffeg, ardaloedd trwchus o goetir, gosodiad tai bach o amgylch ffyrdd serth a throellog, y craidd canolog o adeiladau o amgylch y Stryd Fawr a'r ardal goediog ddiaffordd o amgylch Eglwys Sant Tanwg. Nodweddir yr Ardal Gadwraeth gan y castell canoloesol, a'i dopograffeg a'i leoliad mewn tirwedd eithriadol, adeiladau cerrig a llechi traddodiadol hwyrach o'r 19^{eg} a'r 20^{fed} Ganrif, a gosodiad clòs o amgylch ardal craidd manwerthu ganolog y Stryd Fawr gyda ffyrdd gwledig troellog a serth mewn rhai mannau sy'n arwain i mewn ac allan o'r dref.
18. Mae'r ardal yn union gerllaw safle'r apêl yn cynnwys yr Ardal Gadwraeth a nodweddir gan y grŵp teras o adeiladau cerrig a tho llechi sydd â pherthynas glòs â'r Stryd Fawr. Mae gan y grŵp teras hwn ffryntiadau siop llydan ar lefel y stryd ac maen nhw gyferbyn â maes parcio cyhoeddus a theras arall o adeiladau preswyl cerrig. Mae wal gerrig ac ardal drwchus o goed i'r dwyrain a chyferbyn.

19. Mae'r datganiad treftadaeth yn nodi mai defnydd preswyl oedd i eiddo'r apêl cyn i'r ffryntiad siop gael ei osod. Honnir y byddai tynnu'r ffryntiad siop ymaith yn dychwelyd yr eiddo i'r hyn a oedd o'r blaen gyda manylion cerrig i gyfateb i'r llawr cyntaf a ffenestri a drws newydd ar lefel y llawr gwaelod i adlewyrchu manylion y ffenestri llawr cyntaf presennol. Mae balconi a thrawsnewid ffenestr yn ddrws yn rhan o'r cynnig hefyd, ac nid yw'r Awdurdod yn gwrthwynebu hyn. Honnir bod adeilad yr apêl ar ben deheuol Stryd Fawr Harlech gan wynebu tua'r de, ac felly na fyddai'r newidiadau'n cael unrhyw effaith ar berthynas yr adeilad â'i leoliad.
20. Fodd bynnag, mae'r maes parcio cyhoeddus o fewn yr Ardal Gadwraeth. Fel y mae CADW yn nodi, y prif newid allanol fyddai tynnu'r ffryntiad siop ymaith a gosod y ffasâd cerrig gwastad a ffenestri a drws domestig. Cytunaf y byddai'r prif newid gweledol i'r tu blaen, sy'n olygfan o'r maes parcio. Mewn llawer o achosion, y maes parcio fyddai'r man lle byddai ymwelwyr â'r Ardal Gadwraeth yn cyrraedd, ac mae adeilad yr apêl yn amlwg oherwydd yr agwedd hon.
21. Felly, anghytunaf fod safle'r apêl ar gyrion yr Ardal Gadwraeth. Mae ardaloedd a manau sydd o fewn yr Ardal Gadwraeth sy'n ffactorau sy'n cyfrannu at werthfawrogi arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r olygfa o'r maes parcio yn un agwedd sy'n rhoi ymdeimlad o gyrraedd yr Ardal Gadwraeth, ac mae'r ffordd a'r palmant cul nesaf at y grŵp teras yn parhau â'r un olygfa.
22. Nid yw dychwelyd adeilad yr apêl i olwg ddomestig yn yr olygfa llawr gwaelod ar lefel y stryd yn annerbyniol. Mae'r ffenestri newydd arfaethedig yn gymesur â maint y ffenestri llawr uchaf o ran dimensiwn, ac yn fwy llydan mewn un olygfa, sy'n rhoi cymhareb briodol a chydbwysedd gweledol i'r adeilad. Mae'r dystiolaeth yn dangos mai defnydd preswyl oedd iddo, yn ôl pob tebyg, cyn i'r ffryntiad siop gael ei osod ac mae CADW yn cytuno y byddai'r newid arfaethedig yn dychwelyd yr adeilad i sefyllfa debyg cyn iddo fod yn siop ac yna'n fwyty.
23. Fodd bynnag, mae arwyddocâd yr Ardal Gadwraeth yn deillio o'r ffurfiau a'r deunyddiau adeiladu traddodiadol. Mae gosodiad adeiladau preswyl a masnachol yn dilyn cyfuchliniau'r tir a rhai ffyrdd cul a serth. Mae'r Ardal Gadwraeth yn nodedig am y castell canoloesol, golygfeydd dramatig o'r dirwedd ehangach, ardaloedd o goetir trwchus ac enghreifftiau o adeiladau Georgaidd, Fictoraidd ac Edwardaidd a adeiladwyd gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol, y mae rhai ohonynt yn amrywio o ran graddfa a gorffeniad. Mae ffurf glôs yn bennaf yr adeiladau o amgylch y Stryd Fawr wedi'u lleoli'n agos i'r ffordd ond wedi'u gwahanu gan y lle o'u hamgylch. Gyda'i gilydd, mae'r adeiladau hyn a adeiladwyd gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol, y lle maen nhw'n ei feddiannu a'u perthynas â'i gilydd, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, ac yn cyfrannu at ei harwyddocâd fel ased treftadaeth.
24. Cynigir cyfateb manylion a deunyddiau'r ffenestri llawr cyntaf. Nodais fod ffenestri PVCu wedi cael eu gosod ar lefel y llawr cyntaf yn y grŵp teras hwn drwyddo draw. Nid yw'r cynnig yn darparu'r manylion a fyddai'n angenrheidiol i bennu'r effaith ar yr Ardal Gadwraeth er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i'r sylw arbennig sy'n ofynnol i sicrhau bod y cynnig yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu olwg yr Ardal Gadwraeth.
25. Nid yw PVCu yn ddeunydd traddodiadol a byddai'n niweidio golwg yr Ardal Gadwraeth a'i harwyddocâd fel ased treftadaeth. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod fframiau PVCu yn fwy trwchus yn gyffredinol, mae angen rhimyn plastig a hollt awyru arnynt, ac mae'r gwydriad fel arfer yn fodern a thra adlewyrchol ac nid oes ganddynt gywreinrwydd ffenestri dalennog neu gasment pren yn gyffredinol. O ystyried amlygrwydd adeilad yr apêl, ei ffryntiad stryd llydan ac ehangder yr agoriadau, y diffyg manylion a'r diffyg datganiad o ddull i drin y gwaith carreg mewnlenwi, nid wyf yn fodlon y byddai'r cynnig yn

gwarchod golwg yr Ardal Gadwraeth. Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd ac oherwydd absenoldeb y manylion sy'n angenrheidiol i roi ystyriaeth i brawf statudol Ardaloedd Cadwraeth, nid wyf wedi'm darbwyllo y gellir rheoli'r materion hyn trwy amodau cynllunio.

26. Ystyriaeth y byddai'r cynnig yn gwrthdaro â Pholisi Strategol Ff y CDLI. Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn gwarchod golwg Ardal Gadwraeth Harlech.

Materion Eraill

27. Nid yw CADW wedi gwrthwynebu effaith y datblygiad arfaethedig ar heneb gofrestredig a safle treftadaeth y byd y castell a'i werth cyffredinol eithriadol, a chytunaf â'r safbwynt hwnnw.

Casgliad

28. Wrth ddod i'm penderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion lles Gweinidogion Cymru.

29. Rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw'r cynnig yn cyd-fynd â'r cynllun datblygu ac nad yw ystyriaethau eraill perthnasol yn ddigonol i wrthbwysu'r gwrthdaro â'r cynllun datblygu. Nid yw'r datblygiad arfaethedig yn gwarchod golwg yr Ardal Gadwraeth.

30. Am y rhesymau a roddwyd uchod, deuf i'r casgliad y dylid gwrthod yr apêl.

Iwan Lloyd

AROLYGYDD